

<b>Adrodd i'r</b>	<b>Pwyllgor Craffu Partneriaethau</b>
<b>Dyddiad y cyfarfod</b>	<b>12 Medi 2024</b>
<b>Aelod / Swyddog Arweiniol</b>	<b>Y Cyngorydd Elen Heaton / Nicola Stubbins</b>
<b>Pennaeth Gwasanaeth</b>	<b>Nicola Stubbins, Cyfarwyddwr Corfforaethol</b>
<b>Awdur yr Adroddiad</b>	<b>Gethin Morgan, Pennaeth Cydweithio Rhanbarthol</b>
<b>Teitl</b>	<b>Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru 2023/24</b>

## **1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

- 1.1. Yr adroddiad hwn yw Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru ar gyfer 2023/24 (Atodiad 1). Mae'n ofynnol o fewn Rhan 9 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 bod pob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn paratoi, yn cyhoeddi ac yn cyflwyno adroddiad blynyddol i Lywodraeth Cymru.

## **2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

- 2.1. Pwrpas yr adroddiad hwn yw darparu gwybodaeth i bartneriaid mewn perthynas â Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru a'i weithgareddau yn ystod 2023/24.

## **3. Beth yw'r Argymhellion?**

- 3.1. Bod y Pwyllgor yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried y gwaith y mae'n ofynnol i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ei wneud.
- 3.2. Bod y Pwyllgor yn darparu sylwadau ar y gwaith a'r cynnydd yn 2023/24 ar y meysydd gwaith sy'n cael eu dwyn ymlaen trwy Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru.

## 4. Manylion yr adroddiad

- 4.1. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn mynnu bod pob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn cynhyrchu ac yn cyhoeddi adroddiad blynyddol ar ei waith ac yn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.
- 4.2. Ym mis Mawrth 2018 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Ganllaw ar gyfer cwblhau adroddiadau Blynyddol y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ac roedd y Byrddau i ddefnyddio'r canllaw hwn ar gyfer cwblhau ei adroddiad. Mae'r Adroddiad ynghlwm yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol a oedd rhaid ei chynnwys yn y Ganllaw honno. Mae adroddiad Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru yn cael ei ysgrifennu mewn fformat sy'n cynnwys yr holl wybodaeth sydd ei hangen. Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys barn nifer o aelodau'r Bwrdd.
- 4.3. Y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yw'r Bwrdd a sefydlwyd i fodloni gofynion Rhan 9 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r Ddeddf yn mynnu bod awdurdodau lleol yn gwneud trefniadau i hyrwyddo cydweithredu â'u partneriaid perthnasol ac eraill, mewn perthynas ag oedolion sydd ag anghenion gofal a chymorth, gofalwyr a phlant. Mae'n gosod dyletswydd ar bartneriaid perthnasol i gydweithredu, a darparu gwybodaeth i'r awdurdodau lleol at ddibenion eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol.
- 4.4. Mae Rhan 9 o'r Ddeddf hefyd yn cynnwys trefniadau partneriaeth rhwng awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol i gyflawni eu swyddogaethau. Mae'r Ddeddf hefyd yn rhoi pwerau i Weinidogion Llywodraeth Cymru wneud rheoliadau mewn perthynas â threfniadau partneriaeth ffurfiol, adnoddau ar gyfer trefniadau partneriaeth (gan gynnwys cronfeydd cyfunol) a byrddau partneriaeth.
- 4.5. Diben Rhan 9 y Ddeddf yw gwella canlyniadau a lles pobl, yn ogystal â gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ddarparu gwasanaethau. Felly, gellir disgrifio amcanion allweddol cydweithredu, partneriaeth ac integreiddio fel a ganlyn:
  1. Gwella gofal a chymorth, gan sicrhau bod gan bobl fwy o lais a rheolaeth
  2. Gwella canlyniadau ac iechyd a lles

3. Darparu gofal a chymorth cydlynol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn
4. Gwneud defnydd mwy effeithiol o adnoddau, sgiliau ac arbenigedd.

- 4.6. Pwrpas yr Adroddiad Blynyddol yw nodi'r cynnydd y mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wedi'i wneud ac ystyried sut mae byrddau yn cyflawni egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

## **5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?**

- 5.1. Bydd gweithio mewn partneriaeth ar draws gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn helpu i gefnogi Sir Ddinbych iachach, hapusach a gofalus a hefyd sicrhau gwasanaeth di-dor i unigolion sydd angen gofal a chymorth.

## **6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

- 6.1. Mae 6 Awdurdod Lleol a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) yng Ngogledd Cymru yn cyfuno cyllid i gefnogi gwaith rhanbarthol, mae hyn hefyd yn ariannu'r Tîm Cydweithio Rhanbarthol ac mae cytundeb partneriaeth ffurfiol i danategu hyn.
- 6.2. Trwy'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, mae Llywodraeth Cymru yn sianelu ffynonellau arian grant megis y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r cronfeydd cyfalaf Tai â Gofal ac Integreiddio ac Ailgydbwyso. Ble mae'n bosibl codi tâl gweithgaredd partneriaeth rhanbarthol ar y grantiau hyn, mae hyn yn cael ei weithredu.

## **7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?**

- 7.1. Nid yw asesiad o effaith ar les cyffredinol wedi ei gwblhau ar gyfer yr Adroddiad Blynyddol ond bydd Asesiadau o Effaith ar Gydraddoldeb wedi eu cwblhau ar gyfer yr elfennau unigol ynddynt.

## **8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?**

- 8.1. Bydd yr aelodau'n ymwybodol o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a byddant wedi cael gwybodaeth am Ran 9 o'r Ddeddf a datblygiad Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Ni fu unrhyw ymgynghori ffurfiol,

ac eithrio gydag aelodau o'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol sy'n cynnwys ystod eang o aelodaeth ac sy'n cynnwys Aelodau Arweiniol, dinasyddion a gofalwyr.

## **9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1. Nid oes unrhyw effaith ariannol uniongyrchol i'r adroddiad hwn.

## **10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1. Mae risg wrth sicrhau cydymffurfiaeth â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r Canllawiau ar gyfer adroddiad blynyddol bwrdd partneriaeth rhanbarthol a gyhoeddwyd ym Mawrth 2018 o ran cynhyrchu'r adroddiad blynyddol. Y prif risg yw bod Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru yn gallu cyflawni'r amrywiol ofynion fel sy'n ofynnol yn y Canllawiau Rhan 9 a bod y bartneriaeth yn datblygu i alluogi mwy o weithio mewn partneriaeth ac integreiddio gwasanaethau yn y dyfodol.

## **11. Pŵer i wneud y penderfyniad**

11.1. Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014, Rhan 9

11.2. Mae pwerau'r Pwyllgor Craffu mewn perthynas â'r mater hwn wedi'u pennu yn Adran 21 Deddf Llywodraeth Leol 2000 ac Adran 7 o Gyfansoddiad y Cyngor